

Yr Ysgol a’r Gymuned Leol

- Mae’r ysgol yn rhoi cyfraniadau hael ac yn codi arian tuag at elusennau lleol gan gynnwys Birchgrove Foodbank yn ogystal â chasgliad gan eglwys leol tuag at y digartref.
- Yn y gorffennol, mae disgyblion hŷn yr ysgol wedi bod yn gwerthu cacennau i weddill yr ysgol er mwyn codi arian tuag at Blant Mewn Angen. Yn yr un modd, mae’r ysgol hefyd yn cofio arian tuag at Ddiwrnod Trwynau Coch yn flynyddol.
- Yn ystod cyfnod y Nadolig, mae côr yr ysgol yn mynd o amgylch lleoliadau gwahanol ac yn rhoi perfformiad. Er enghraifft, bu’m yn ymweld â chartref gofal lleol er mwyn lledaenu ysbryd y Nadolig.
- Yn ogystal ag ymweliadau i leoliadau cyhoeddus, mae’r ysgol hefyd yn aml yn gwahodd aelodau o’r cyhoedd i’r ysgol i gynnal gweithgareddau gwahanol gyda’r disgyblion. Yn ystod o flwyddyn ddiwethaf, mae’r ysgol wedi cael sioe gan Mewn Cymeriad ac hefyd disgo pŵer pedlo â chwmni YnniDa ar Ddydd Miwsig Cymru.



- Mae’r ysgol hefyd yn cydweithio ag ysgol uwchradd Cymraeg lleol trwy gael disgyblion o’r uwchradd i ddod i ddarllen â rhai o’r plant cynradd. Mae’n brofiad gwych i’r ddau oedran.

Siarter iaith

- Mae’r ysgol yn dathlu digwyddiadau megis Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Shwmae Su’mae a Dydd Santes Dwynwen yn flynyddol.
- Yn y gorffennol, mae’r ysgol wedi gwahodd gwesteion fel y cerddor Bronwen Lewis i gynnal gig yn yr ysgol a’r DJ Marc Griffiths i gynnal gweithdy radio gyda rhai o’u disgyblion.
- Ers i’r ysgol lansio’i siarter iaith, mae’r gwaith maen nhw wedi ei gyflawni wedi cael ei gymeradwy â gwobr gan y siarter iaith ysgolion Cymraeg lleol.
- Mae’r ysgol yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau sydd wedi’u cynnal gan y Fenter Iaith leol.
- Fel nodwyd yn flaenorol, mae’r ysgol yn cynnig cwrs dysgu Cymraeg i rieni di-gymraeg.

Dechrau Wrth
Fy Nhraed

ECAD4013 Rhif Myfyriwr:2205136



Cymraeg

Cyn dechrau yn yr ysgol

- Mae’r ysgol yn cynnig i rieni gael fynd am dro o amgylch yr ysgol. Mae’n rhoi’r cyfle i rieni gael teimlad o naws yr ysgol, cael cwrdd â rhai o’r athrawon ac hefyd yn cael cysur o weld lle bydd eu plant yn treulio mwyafrif o’u hamser o ddydd i ddydd.
- Hanner tymor cyn i’r disgyblion ddechrau, mae’r ysgol yn cynnal cyfarfod croesawi â’r brifathrawes ac athrawon yr ysgol. Maent yn cyflwyno gwybodaeth a gweithdrefnau’r ysgol i’r rhieni.
- Bydd rhieni newydd yn derbyn llyfryn ‘Dysgu gyda Sam’, a bydd yr ysgol yna yn prynu llyfr iddynt. Mae hyn yn ffordd dda i geisio cael rhieni i ddod mewn i’r arfer o ddarllen gyda’u plant adref ac hefyd yn amlwg yn ffordd i’r plant ymarfer eu sgiliau darllen tu allan i’r ysgol.
- Mae’r ysgol yn cynnig cwrs dysgu Cymraeg i rieni di-gymraeg. Oherwydd Cymraeg yw prif gyfrwng yr ysgol, byddai gallu ymarfer siarad yr iaith gartref yn llawer o gymorth i’r disgyblion hynny sydd ddim mor hyderus yn siarad Cymraeg.
- 6 wythnos ar ôl i’w plentyn dechrau, bydd y rhieni yn cael cyfarfod â’r ysgol er mwyn trafod sut mae eu plant wedi ymgartrefi yn yr ysgol ac i osod targedau ar gyfer eu plant. Byddant hefyd yn derbyn pecyn cefnogaeth sydd yn cynnwys numicon, rhestr o appiau addas a ‘tric a chlic’; deunydd i helpu datblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu disgyblion.

Sut mae’r ysgol yn cysylltu â rhieni?

Mae’r ysgol yn credu’n gryf bod hi’n hanfodol cael cydweithrediad da rhwng y cartref a’r ysgol.

- Mae gan yr ysgol ‘Gytundeb Cartref/Ysgol’. Caiff ei anfon adref yn flynyddol ac mae’r athro, y disgybl a’r rhiant/gwarcheidwad yn ei harwyddo. Nodir y cytundeb yr hyn a ddisgwylir o’r disgyblion a’u rhieni/gwarcheidwaid ac hefyd yr hyn y gall y cartref ddisgwyl o’r ysgol.
- Mae modd i rieni ddarllen cylchlythyr wythnosol y Llywodraethwyr er mwyn bod y rhieni yn cael y diweddara am beth sydd yn digwydd.
- Mae’r ysgol yn cynnal cyfarfodydd gyda rhieni a Llywodraethwyr. Mae modd i rieni roi eu mewnbwn i benderfyniadau’r llywodraethwyr.
- Mae papur newydd tymhorol â’r ysgol o’r enw ‘Clebran Cŵl’. Mae’n rhoi’r cyfle i rieni a’r gymuned cael gweld beth mae’r plant wedi bod yn gwneud yn ystod tymor yr ysgol.
- Mae tudalen trydar yr ysgol yn le arbennig i rieni weld lluniau o’u plant yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau megis canu yn y gymuned, gwaith rhai dosbarthiadau yn ystod yr wythnos a digwyddiadau cenedlaethol fel Dydd Miwsig Cymru a Diwrnod Shwmae Su’mae.
- Yn amlwg, lleoliad arall sydd ar gael i rieni ddod o hyd i lawer o wybodaeth ddefnyddiol yw Gwefan yr Ysgol. Mae modd iddynt ddysgu mwy am yr ysgol yn yr adran ‘Amdanom Ni’ ac i gadw llygad ar ddigwyddiadau yn y calendr. Mae hefyd llawer o wybodaeth ynglŷn â pholisïau’r ysgol yno a’r Siarter Iaith yn ogystal ag adnoddau dysgu Cymraeg i rieni ac amrywiaeth o adnoddau i ddisgyblion yno.
- Mae’r ysgol yn defnyddio’r rhaglen Weduc i gyfathrebu â rhieni. Gellir danfon negeseuon brys yno yn ogystal â thalu am driphais ysgol ac mae modd gwneud hyn i gyd o fewn un lle. Mae’n llwyfan cyfathrebu sy’n hwyluso pethau nid yn unig i’r ysgol ond hefyd i rieni.

Ffeithiau am yr ysgol

- Mae 482 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, a 70 o’r rheini oed meithrin rhan amser.
- Mae’r 482 disgybl wedi eu rhannu rhwng 17 dosbarth.
- Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol, gyda 10% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.
- Mae tua 7% o ddisgyblion yr ysgol yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (canran cenedlaethol 18%).
- Mae tua 22% o’r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (canran cenedlaethol 21%).
- Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig